**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 18 Tachwedd 2021 am 2.00pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P Downing | P R Hood-Williams |
| M A Langstone | W G Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Mark Barrow | Rheolwr y Cerbydlu |
| Scott Dummett | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Phillip John | Rheolwr y Prosiect |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd A S Lewis - Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau
Y Cynghorydd M Thomas – Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: P K Jones Y Cynghorydd R Francis-Davies – Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth

---

## 20 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 21 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi’r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

**22 Strategaeth Cerbydau Allyriadau Isel Iawn.**

Cyflwynodd Rheolwr y Cerbydlu adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn manylu ar y Strategaeth Allyriadau Isel Iawn newydd a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i gefnogi ymagwedd y cyngor a'i Bolisi Cerbydlu Gwyrdd hollgyffredinol.

Trafododd yr Aelodau'r canlynol: gwella sgiliau technegwyr i Safonau Cymhwysedd Sefydliad y Diwydiant Moduro; cyfleoedd prentisiaethau; galw am isadeiledd gwefru cerbydau trydan; cerbydau tanwydd hydrogen a'r cynllun aberthu cyflog.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyfarwyddwr Lleoedd, cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn fodlon ar yr 20 gweithred y manylwyd arnynt yn y cynllun trawsnewid.

Mynegodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau a Gwella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd eu diolchgarwch i Swyddogion am eu gwaith caled i gyflwyno'r strategaeth heriol a sensitif o ran amser.

**23 Cynllun Gwaith 2020 - 2022**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020-2022.

Nododd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd wedi'i chymeradwyo gan y Cabinet ac awgrymodd fod y Pwyllgor (wrth ystyried y mater yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr) yn nodi elfennau'r strategaeth lle gellid archwilio camau gweithredu allweddol yn fanylach.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y diweddariad am Raglenni Cyflogadwyedd (a ystyriwyd yn y cyfarfod ym mis Hydref 2021) a nododd y byddai ef a'r Is-Gadeirydd yn trafod unrhyw faterion trawsbynciol yn uniongyrchol â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg.

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith ar gyfer 2020-2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.50pm

**Cadeirydd**